**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**6/7/2021**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Dewi Jones, (Cadeirydd), Huw Antur, Rhodri Prys Jones, Euros Roberts, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2251** **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a mynegodd ei hapusrwydd fod y Cyngor wedi gallu cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith eto. Diolchodd i Bwyllgor y Neuadd am wneud y paratoadau ar gyfer cyfarfod yn ddiogel.

**2252** **Derbyniwyd** Ymddiheuriadau Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths (Is-gadeirydd), Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, ac Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd)

**2253** **Derbyniwyd** datganiadau o fuddiant gan Huw Antur ac Euros Roberts ym mater 2260iii (cais am nawdd), a chan Dewi Wyn Jones ym mater 2262iii (cais cynllunio).

**2254** **Cymeradwywyd cywirdeb** Cofnodion 1/6/2021 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig 22/6/21

**2255** **Materion y Clerc:**

i. 2250 iv Adroddiad o gyfarfod ynglŷn â mynediad i Garth Bach: diolchwyd i Alwyn Evans Jones ac Alwyn Roberts am gyfarfod gyda Swyddogion y Parc a'r teulu i drafod mynediad i Garth Bach. Adroddwyd fod angen arwyddion clir i wahaniaethu rhwng llwybr yr Aran a mynediad at Garth Bach, ac fe fydd Warden y Parc yn gofalu am hyn. Diolchwyd i'r perchnogion am ganiatáu mynediad agored i Garth Bach ar gyfer mwynhau'r olygfa oddi yno.
   Mae angen nodi llwybrau'n gliriach mewn sawl lle a chytunwyd i dynnu sylw'r Warden at lwybrau yn ardal Brynllech, Dolbach, a'r cae rhwng Bryn Gwyn a'r Wern. Holwyd am y broses o wyro llwybrau rhag iddynt fynd trwy fuarth ac yn y blaen. Cytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf hefyd.
ii. 2250 ix Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid: cafwyd ateb ar lafar gan y Rheolwr prosiect nad ydyw'n fwriad o gwbl i godi lefel y llyn wrth wneud y gwaith cryfhau i'r wal yn Y Bala.
iii. Trafodwyd dymuniad Cyngor Cymuned Llangywer i gyd-weithio ac roedd bodlonrwydd i hyn. Awgrymwyd y gallai cynrychiolwyr o'r is-bwyllgor Cynllun Ardal fynychu cyfarfod nesaf o Gyngor Cymuned Llangywer i gynnig cymorth ar wneud cynllun tebyg.
iv. Adroddiad Blynyddol y Cyngor2020-21: cefnogwyd ei gyhoeddi ar y we a chynnwys crynodeb ariannol byr a rhestr o'r mudiadau y mae'r Cyngor yn ei gefnogi'n ariannol.
v. Cytunwyd i fenthyg yr offer recordio ar gyfer casglu atgofion trigolion wrth i'r Hen Gapel ddathlu 150 oed ar ei ffurf bresennol.

2256 **Adroddiad Cyngor Gwynedd** - Anfonwyd dymuniadau gorau at y Cynghorydd Alan Jones Evans wrth iddo wella o'i lawdriniaeth ddiweddar.

2257 **Adroddiadau Is-bwyllgorau**

i. Cynllun Ardal: Cyflwynodd Huw Antur ddrafft o'r Cynllun Ardal a diolchwyd iddo ef yn arbennig ac i weddill yr is-bwyllgor am y gwaith mawr a wnaethpwyd arno. Cafwyd trafodaeth ddiddorol ar nifer o'r pwyntiau yn y Cynllun gan gytuno fod yma sail gadarn i arwain y Cyngor yn y dyfodol. Gofynnwyd i aelodau anfon sylwadau pellach at Huw Antur neu'r Clerc erbyn 20fed o Orffennaf. Cytunodd Alwyn Roberts i gyfarfod gyda Huw Antur i lunio Cynllun Gweithredu fel tudalen flaen ar gyfer pryd bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i asiantaethau megis Parc Cenedlaethol Eryri. Byddant hefyd yn adnabod pobl allweddol yn yr asiantaethau er mwyn bwydo mewn i strategaethau newydd. Bydd mabwysiadu'r Cynllun yn ei ffurf derfynol o flaen y Cyngor yng nghyfarfod Medi.
ii. Cyfleusterau: Adroddwyd fod canmoliaeth a gwerthfawrogiad o'r cyfleusterau ar eu newydd gwedd.
iii. Y Fynwent: Dywedodd Alwyn Roberts fydd cyfarfod yn fuan gyda'r Ymgymerwyr i wirio'r trefniadau ar gyfer mannau claddu llwch.

2258 **Adroddiadau Cynghorwyr:**

i. Gaiman: Anfonodd Beryl Hughes Griffiths neges wedi ei recordio gan Ricardo Evans.
ii. Cyflwr asedau: Cytunwyd fod yr asedau mewn cyflwr boddhaol. Cytunodd Heledd Jones i gadw llygad ar y cerfluniau er mai Cyngor Gwynedd sy'n eu perchen. Cytunwyd i ofyn i Adran Eiddo Cyngor Gwynedd wneud asesiad o ddiogelwch y cerfluniau rhag ofn i blant ddringo fyny'r plinth.

2259 **Materion lleol Cynghorwyr**: Derbyniodd y Clerc neges parthed Ardal y Bont Newydd a deellir fod yr aelod o'r cyhoedd wedi cymryd y camau priodol a chysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Llwybrau: Tynnwyd sylw Partneriaeth Penllyn fod angen torri Llwybr y Cei a Llwybr Cwn. Cytunwyd i dalu am dorri Llwybr Tegid. Mae angen cysylltu gyda'r Warden a Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i holi am ail wynebu rhan uchaf Llwybr y Cei.

Tynnir sylw Parc Cenedlaethol Eryri fod gwersylla gwyllt yn digwydd ar y "Ranges" rhwng Llanuwchllyn a Thrawsfynydd.

2260 **Materion ariannol:**

i. Y sefyllfa ariannol: Derbyniwyd gwybodaeth trwy e-bost gan Bethan Edwards. Cytunwyd gyda'i hawgrym i dalu am y Cytundeb Glanhau bob mis
ii. Derbyniadau a thaliadau:
    a. derbyniwyd £30gan edf fel cydnabyddiaeth am anhwylustod gan na ddaeth swyddog i osod *smart-meter* yn y Toiledau. Mae cyfraniadau ariannol yn cael ei rhoi yn y toiledau ac mae'r bocsys yn cael eu gwagio'n fynych.
    b. Talwyd: Cyflog y Clerc a CThEM fel arfer ; HG Webb Designs – cynnal gwelan £150; Dŵr Cymru £49.02; Anfonebau'r toiledau £321.31

c. Cais am nawdd ariannol Ardd Gymunedol: cytunwyd i argymell agor cronfa agored i dderbyn cyfraniadau. Cytunwyd i gyfrannu £500 fel man cychwyn i'r Gronfa.

**2261** **Partneriaeth Penllyn** – nid oedd mwy i'w adrodd.

**2262** **Ceisiadau Cynllunio:** Awgrymwyd fod pob aelod yn chwilio gwefan Parc Cenedlaethol Eryri cyn cyfarfod y Cyngor. Pan fydd yn bosib cyfarfod yn y Syrjeri unwaith eto, byddai'n ddymunol sicrhau offer dangos dogfennau.

i. **NP5/71/78B** Cefn yr Odyn, Llanuwchllyn. LL23 7TL Adeiladu estyniad ochr i'w ddefnyddio fel anecs. **Cymeradwywyd** oherwydd mai estyniad i'r breswylfa ar gyfer defnydd teuluol ydyw

**ii.** **NP5/71/473B** Trosi a newid defnydd cyn siop i ffurfio estyniad i'r annedd cyffiniol ynghyd ac adeiladu estyniad cefn i gysylltu ag adeilad allanol presennol (Ail-gyflwyniad) Bronant Stores / Garn, Llanuwchllyn. LL23 7TP Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i holi pa dystiolaeth sydd y bu ymgynghori lleol a bod bodlonrwydd y gymuned, fel yr honnir. Sylwyd fod drws annibynnol i Bronant Stores ac mae pryder y bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes gwyliau, yn groes i bolisi'r Cyngor.

iii. **NP5/71/LU481** Cais am Dystysgrif Ddefnydd Cyfreithiol (Defnydd Presennol) ar gyfer defnyddio carafán statig ar dir nesaf i annedd-dy fel anecs, a chwrtil estynedig Deildre Isaf, Llanuwchllyn. LL23 7TB - **Cymeradwywyd**

iv. **NP5/71/T56C** Cais am estyniad i'r Eagles. Gohiriwyd trafod gan nad oedd y manylion wedi cyrraedd y wefan. Gofynnir i'r aelodau ystyried y manylion ac anfon eu barn at y Clerc erbyn diwedd yr wythnos.

**2263** **Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn (E-bostiwyd):

*i.* Neges Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu sylwadau ar reolaeth coedwigaeth.
*ii.* Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gymwysterau proffesiynol Clercod.
*iii.* Cyngor Tref Nefyn: cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ar Bolisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cytunwyd i gefnogi.
*iv.* Cyngor Cymuned Pistyll: delio gyda phroblemau parcio dros nos – cytunwyd i gefnogi.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/9/21 Zoom neu Neuadd Bentref yn ddibynnol ar amgylchiadau Covid. Amser gorffen 9.50pm

Arwyddwyd……………………………………(Cadeirydd) ____/_____/______……………………………(Clerc)